# Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau: Cynllun Iaith Gymraeg

## Ymrwymiad I Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

2014

COMISIWN Y DU DROS GYFLOGAETH A SGILIAU

**Cynnwys**


1. Datganiad agoriadol
2. Cyflwyniad i Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau
3. Cyd-destun Cymru
4. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau
5. Delio â'r cyhoedd
6. Wyneb cyhoeddus UKCES
7. Gweithredu'r Cynllun
8. Trefniadau gweinyddol
9. Gwasanaethau a gyflwynir ar ran UKCES gan Drydydd Partïon
10. Partneriaethau
11. Monitro'r Cynllun
12. Cyhoeddi gwybodaeth
13. Cyhoeddusrwydd
14. Cwynion, Awgrymiadau a Phwyntiau Cyswllt
15. Targedau
16. Amserlen

## 1. Datganiad agoriadol

Mae Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno sut bydd UKCES yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bu i Gomisiynydd y Gymraeg gymeradwyo'r Cynllun o dan Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraegy Ddeddf ar 10 Tachwedd 2014.

Mae UKCES yn cydnabod bod unigolion yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith a bod eu galluogi nhw i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o arfer da yn hytrach nag yn gonsesiwn, ac y gallai gwadu'r hawl honno iddynt beri gwir anfantais iddynt. Felly, bydd UKCES yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio ym mhob ymwneud ag UKCES a bydd hefyd yn cymhwyso'r egwyddor hon i'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan y cyrff y mae'n delio â nhw.

Yn y cynllun hwn, ystyr y term 'cyhoedd' yw unigolion. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynswth, neu ran o'r cyhoedd sy'n gweithredu'n breifat. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys pobl sy'n gweithredu wrth gynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair cyhoeddus wrth gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn trosglwyddo swyddogaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ymwneud â Chynlluniau Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Hefyd, mae'r Mesur yn rhoi grym cyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg. Dros gyfnod, bydd Cynlluniau Iaith Gymraeg yn cael eu disodli gan safonau statudol a fydd yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodant sut y disgwylir i sefydliadau ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a sut y byddant yn trin ac yn defnyddio'r Gymraeg. Mae UKCES yn ymrwymo i gymryd camau cadarnhaol i weithredu swyddogaethau o dan y Mesur newydd.

## 2. Cyflwyniad i Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau

Mae Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn gorff a ariennir yn gyhoeddus, wedi'i arwain gan ddiwydiant, sy'n cynnig arweinyddiaeth ar faterion sgiliau a chyflogaeth ar draws y DU. Gyda'i gilydd, mae ein Comisiynwyr yn bartneriaeth gymdeithasol o uwch arweinwyr cyflogwyr bach a mawr a ddaw o ddiwydiant, undebau llafur, y trydydd sector, addysg bellach ac addysg uwch, ac o bedair cenedl y DU.

Ein Gweledigaeth yw creu, gyda diwydiant, y cyfleoedd gorau ar gyfer doniau a sgiliau pobl er mwyn sbarduno cystadleuaeth, menter a thwf mewn economi fyd-eang.

Dros y tair blynedd nesaf, ein Huchelgais yw gweld diwydiant yn y DU yn creu "ysgolion cyfle" er mwyn i bawb gael gwaith a ffynnu yn y gwaith.

Ystyr hyn yw bod cyflogwyr yn gwella'r ffyrdd y gall pobl ifanc ymuno â'r farchnad lafur, sicrhau bod y gweithlu presennol yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen ar fusnes i gystadlu ac ar unigolion i wneud cynnydd, a defnyddio'r sgiliau hynny mewn ffordd sy'n sbarduno cynhyrchiant a thwf.

Dyma agenda ar y cyd i gyflogwyr gan weithio mewn partneriaeth â llywodraeth, undebau llafur, darparwyr addysg, cyrff diwydiant a sefydliadau lleol.

Ein Huchelgais dros y tair blynedd nesaf yw:

- Creu mwy o gyfleoedd i bob person ifanc gael gwaith a ffynnu yn y gwaith;
- Gwella sgiliau, cynhyrchiant a chynnydd pobl sydd mewn gwaith; a
- Chreu llwybrau galwedigaethol cadarnach i sgiliau a swyddi lefel uwch.

Mae gennym bedwar amcan sy'n cyflwyno'n cyfraniad unigryw dros y tair blynedd nesaf. Ein hamcanion yw:

- Arwain y drafodaeth gyda diwydiant i sbarduno deilliannau gwell ar gyfer sgiliau, swyddi a thwf;
- Gweithio gyda rhwydweithiau a phartneriaethau diwydiannol i hybu perchnogaeth cyflogwyr ar sgiliau;
- Rhoi prawf ar arloesiadau dan arweiniad cyflogwyr er mwyn mynd i'r afael â heriau cyson o ran sgiliau;
- Helpu busnesau i wireddu potensial eu pobl trwy Fuddsoddwyr mewn Pobl.

## 3. Cyd-destun Cymru

Mae dealltwriaeth ein Comisiynwyr yn greiddiol i'n cylch gwaith, sef gwella polisïau ac ymarfer cyflogaeth a sgiliau yn y meysydd hynny y gwyddom eu bod yn llesteirio busnes, yn ogystal â pherfformiad economaidd ehangach. Trwy ein Comisiynwyr, gallwn gyflawni newid yn unol â blaenoriaethau pob un o'r pedair cenedl.

Penododd Llywodraeth Cymru Scott Waddington, Prif Weithredwr, S.A. Brain & Company Ltd yn Gomisiynydd Cymru ar gyfer Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau. Mae'r penodiad yn para am dymor (adnewyddadwy) 3 blynedd o 1 Ebrill 2012 tan 31 Mawrth 2015.

Mae UKCES yn gweithredu o blaid cyflogwyr , ond mae hefyd yn gweithio gyda'r llywodraeth ac yn unol â'r gwahanol drefniadau ar gyfer cyflogaeth a sgiliau ar draws pedair cenedl y DU.

Mae gwaith a wnaed yn benodol yng Nghymru i gynyddu buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau ar bob lefel, a'r defnydd gwell arnynt, wedi cynnwys:

- Cyfrannu at yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, a chymorth parhaus ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru;
- Cymorth tuag at lunio a datblygu Prentisiaethau (yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol) yng Nghymru, yn ogystal ag yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, i sicrhau eu bod wedi'u llunio trwy gydweithredu gan gyflogwyr i fodloni anghenion cyflogaeth a, hefyd, i adlewyrchu'r systemau sgiliau gwahanol. Yn ogystal, rydym wedi comisiynu sgorau perthnasedd cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn ymddangos yn y Datganiad Polisi ar Sgiliau ar gyfer Cymru;
- Cyfrannu canfyddiadau UKCES at Adolygiad Llywodraeth Cymru o Brentisiaethau Uwch;
- Darparu gwybodaeth gyffredinol am fusnes ar draws y pedair cenedl fel corff sy'n gweithredu yn y DU gyfan. Rydym yn cynhyrchu'r arolwg mwyaf o'i fath o sgiliau cyflogwyr (arolwg ymhlith 91,000 o gyflogwyr ar draws y DU gyfan), y gyfres fanylaf o amcanestyniadau sydd ar gael ynghylch y farchnad lafur ac asesiadau strategol o sgiliau ar draws y DU ac ar gyfer sectorau unigol a allai ddylanwadu ar gynhyrchion sgiliau fel datblygiad Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

## 4. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

### Polisïau a Mentrau Newydd

Wrth lunio polisïau a mentrau newydd, bydd UKCES yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd a sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith;

- sicrhau bod y mesurau yn y Cynllun hwn yn cael eu cymhwyso i bolisïau a mentrau newydd pan gânt eu gweithredu;
- sicrhau nad yw unrhyw bolisi neu fenter newydd yn tanseilio Cynllun Iaith Gymraeg UKCES na Chynlluniau darparwyr eraill;
- hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl a bydd yn symud yn agosach at weithredu'r egwyddor cydraddoldeb yn llawn ar bob cyfle;
- ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun neu ar Gynllun corff cyhoeddus arall. Ni chaiff y Cynllun ei addasu heb gytundeb y Comisiynydd; a
- sicrhau nad dim ond y rhai hynny sy'n ymwneud â llunio polisi (yng Nghymru a thu hwnt) a fydd yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau UKCES o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ond y bydd holl staff angenrheidiol a pherthnasol UKCES yn cael gwybod am y Cynllun.

Nid oes gan UKCES aelodau staff yng Nghymru ar hyn o bryd ond bydd yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ac o sensitifrwydd ieithyddol ymhlith y staff perthnasol trwy:

- gyhoeddi i'r holl staff mewn cyfarfodydd Timau Cartref y bydd y Cynllun yn cael ei weithredu;
- cynnal adolygiad a diwygiad blynyddol o'r Cynllun gyda'r staff perthnasol i sicrhau eu bod yn deall beth sy'n ofynnol ac yn monitro effeithiolrwydd gweithrediad y Cynllun (gwneir hyn drwy'r Tîm Gwasanaethau Busnes),
- llunio briff electronig am y Cynllun a'i ddosbarthu i'r holl staff; a
- chyhoeddi'r Cynllun ar fewnrwyd y sefydliad ac ar dudalennau UKCES ar .GOV.UK.

**Safonau ansawdd**

Bydd y gwasanaethau a gynigir o ansawdd yr un mor uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg a chânt eu cynnig o fewn yr un amser. Pan fydd yn asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd ei wasanaeth yn Gymraeg, bydd UKCES yn defnyddio yr un "dangosyddion perfformiad" ag y mae'n defnyddio ar gyfer ei wasanaethau yn Saesneg.

Bydd gweithrediad y Cynllun ac ymrwymiad UKCES i gydraddoldeb ieithyddol yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe'r sefydliad ar .GOV.UK.

**Darparu gwasanaethau dwyieithog**

Cred UKCES ei bod hi'n deg ac yn rhesymol i'r cyhoedd ddisgwyl derbyn eu gwasanaethau yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â dewis yr unigolyn. Er nad yw'n gallu cynnig y dewis teg a rhesymol hwn i'r cyhoedd ar bob adeg ar hyn o bryd, mae UKCES yn ymrwymo i roi trefniadau ar waith a fydd, yn y pen draw, yn ei alluogi i ddarparu pob gwasanaeth i'r cyhoedd yn gyfartal, yn effeithiol, yn gyfleus ac yn gynhwysfawr yn Gymraeg a Saesneg.

I'r perwyl hwn, bydd UKCES yn cynnal archwiliad o'r ffordd y caiff pob un o'i wasanaethau i'r cyhoedd ei drefnu er mwyn pennu'r ffordd orau iddo weithio tuag at weithredu'r egwyddor cydraddoldeb. Yn y lle cyntaf, bydd yn rhoi blaenoriaeth i'r angen am sicrhau bod y staff hynny sydd â'r mwyaf o gysylltiad â'r cyhoedd, boed wyneb yn wyneb, dros y ffôn, trwy ohebiaeth neu trwy ddulliau eraill, yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog.

## 5. Delio â'r cyhoedd

### Gohebiaeth Ysgrifenedig

Bydd UKCES yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd ein papur pennawd swyddogol a ddefnyddir i ohebu â'r cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith, yn datgan yn glir ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb llythyrau Cymraeg yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau Saesneg (sef 20 niwrnod gwaith). Ni fydd gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain ynddo'i hun at unrhyw oedi.

Bydd pob llythyr a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb llofnodedig yn Gymraeg.

Bydd pob gohebiaeth yn dilyn sgwrs ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb yn Gymraeg neu mewn cyfarfod lle sefydlwyd mai Cymraeg yw dewis iaith yr unigolyn, er efallai na chynhaliwyd y drafodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael ei darparu yn Gymraeg.

Bydd pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn cael ei chychwyn yn ei ddewis iaith os yw'n hysbys. Bydd UKCES yn creu cronfa ddata o'r rhai sy'n dymuno derbyn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr holl lythyrau safonol a chylchlythyrau a ddosberthir gan UKCES i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Gwneir trefniadau i gyfieithu gohebiaeth fel bo'r angen er mwyn ateb gohebiaeth yn brydlon ac yn yr iaith wreiddiol. Caiff staff wybodaeth fanwl am y modd y cyflawnir hyn.

Bydd UKCES yn anfon pob deunydd y bydd angen ei gyfieithu at gyfieithydd allanol cymeradwy a fydd yn cydymffurfio â'r amserlen y cytunwyd arni.

### Gohebiaeth Electronig

Bydd yr egwyddorion a amlinellir yn adran 5 yn cael eu cymhwyso hefyd wrth ohebu'n electronig. Pan fydd dulliau cyfathrebu a storio newydd yn cael eu gosod ar gyfrifiaduron UKCES, bydd gallu meddalwedd i ddelio â mwy nag un iaith mewn gorchmynion a chofnodion yn ffactor a ystyrir wrth brynu meddalwedd newydd, yn enwedig os bydd systemau o'r fath yn gallu darparu allbwn/gwasanaeth dwyieithog.

### Galwadau Ffôn

Ar hyn o bryd, nid oes gan UKCES swyddfa na staff yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd y sefydliad yn darparu ar gyfer y rhai sy'n dymuno siarad Cymraeg trwy gynnig y dewis canlynol i'r unigolyn:

- cyflwyno'i ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn cael ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg;
- esbonio'r ymholiad yn llawn yn Saesneg a chael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg;
- parhau â'r alwad ffôn yn Saesneg.

Bydd dyletswydd ar y rhai sy'n ymateb i alwadau ffôn ar ran UKCES sicrhau nad ydynt yn peri i'r rhai sy'n ffonio deimlo'u bod yn niwsans nac yn achosi anghyfleustra gan eu bod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

Bydd yr amser targed ar gyfer ateb ymholiadau Cymraeg dros y ffôn yr un fath ag ar gyfer ateb i ymholiadau Saesneg dros y ffôn (sef 20 niwrnod gwaith ar hyn o bryd).

### Cyfarfodydd Cyhoeddus

Ar hyn o bryd, nid yw UKCES yn cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, pe baem

yn dechrau cynnal unrhyw gyfarfodydd o'r fath yng Nghymru yn y dyfodol, byddem yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg neu Saesneg. Caiff hyn ei ddatgan yn glir ar bob hysbysiad sy'n rhoi gwybod am y cyfarfod neu'n rhoi cyhoeddusrwydd iddo, a chaiff y rhai sy'n bresennol wybod hefyd am y dewis ieithyddol hwn ar ddechrau'r cyfarfod.

Yr unig eithriad i'r ddarpariaeth uchod fydd cyfarfodydd lle y gwyddom ymlaen llaw na fydd angen am gyfieithydd, naill ai:

- am fod pawb sy'n bresennol yn deall Cymraeg;
- am fod pawb sy'n bresennol yn ddi-Gymraeg; neu
- am ei bod yn hysbys mai Saesneg yw dewis iaith pawb a fydd yn bresennol.

Bydd pob deunydd (gwahoddiad, gwŷs, hysbyseb, neges e-bost) sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod yn ddwyieithog.

Wrth roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod, bydd pob deunydd yn cynnwys troednodyn yn datgan bod UKCES yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg neu Saesneg. Ond, gofynnir i'r rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol roi gwybod i UKCES ymlaen llaw ym mha iaith y dymunant siarad, fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd os bydd angen.

Os nad yw'n hysbys ymlaen llaw pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod ac a fydd unrhyw un yn dymuno siarad Cymraeg ai peidio, bydd trefnydd y cyfarfod yn penderfynu yn ôl ei ddisgresiwn a ddylid darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd ai peidio. Seilir y penderfyniad hwnnw ar natur y cyfarfod, ei leoliad daearyddol, y rhai sy'n debygol o fod yn bresennol a phrofiad blaenorol o gyfarfodydd tebyg. Os bydd ansicrwydd mawr yn parhau, yna penderfynir o blaid darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd.

Bydd unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig, fel taflenni, agendâu, cyflwyniadau neu daflenni asetad ar gyfer uwchdaflunyddion, a ddefnyddir yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Comisiwn, yn ddwyieithog. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw gyflwyniadau PowerPoint.

Ymatebir i bob cais am wybodaeth ynghylch cyfarfodydd yn newis iaith yr unigolyn.

**Cyfarfodydd heb fod yn gyhoeddus**

Mae croeso i unrhyw unigolyn sy'n dymuno cynnal cyfarfodydd preifat neu unigol gydag UKCES wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd UKCES yn sicrhau, wrth drefnu'r cyfarfod a chynnig dewis o iaith, y bydd yn cynnig y canlynol i'r unigolyn:

- y cyfle i drafod y mater yn Saesneg;
- anfon ei ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn cael ateb Cymraeg ysgrifenedig; neu
- ddefnyddio cyfieithydd-ar-y-pryd.

Trwy gynnig dewis o iaith, mae UKCES yn cydnabod:

- y gall unigolion fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- bod galluogi unigolion i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, ac nid yn gonsesiwn; ac
- y gallai gwadu'r hawl i'r unigolyn ddefnyddio'i ddewis iaith beri gwir anfantais i'r unigolyn.

**Mae'r mesurau uchod yn berthnasol i bob math o gyfarfod sydd heb fod yn gyhoeddus.**

## 6. Wyneb cyhoeddus UKCES

### Hunaniaeth Gorfforaethol

Bydd UKCES yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys logo, hunaniaeth weledol a slogan corfforaethol UKCES, ac unrhyw wybodaeth safonol arall a gaiff ei defnyddio yng Nghymru. Bydd pob deunydd hyrwyddo / hysbysebu (h.y., taflenni, posteri, pamffledi ac ati) cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog hefyd.

### Tudalennau gwe

Bydd ein tudalennau gwe ar .GOV.UK yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg.

Cynhwyswn fersiynau Cymraeg o rai tudalennau rhyngweithiol ar .GOV.UK lle bo hynny'n briodol.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein tudalennau presennol ar .GOV.UK, fe gymerwn i ystyriaeth ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar ddyluniad gwefannau.

Lle bo hynny'n bosib, byddwn yn trefnu i gyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg gael eu cynnwys ar .GOV.UK yr un pryd.

Byddwn yn paratoi rhaglen, i'w chymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn amlinellu sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan gydag amser.

### Arwyddion

Nid oes gan UKCES swyddfeydd yng Nghymru. Fodd bynnag, lle y bydd UKCES yn defnyddio unrhyw adeiladau preifat/wedi'u rhentu/allanol yng Nghymru, bydd yn sicrhau bod pob arwydd yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion dwyieithog yn y dderbynfa yn hysbysu'r cyhoedd am eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd UKCES yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Er y byddai'n well gennym arwyddion dwyieithog, bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, os y'u defnyddir, yn gydradd o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Os bydd UKCES yn caffael eiddo yng Nghymru yn y dyfodol agos, bydd yn parhau i gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yn adran 6.

Bydd pob arwydd dwyieithog a fersiynau Cymraeg ar wahân yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn sicrhau cysondeb yn safon y Gymraeg.

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i arwyddion parhaol ac arwyddion dros dro.

### Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd i'w ddosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru

Trefnir i gyhoeddiadau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol fod ar gael yn Gymraeg. Trefnir hefyd i unrhyw beth sy'n ymwneud â Chymru neu ran o Gymru fod ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys:

- Dogfennau polisi ac ymgynghori yn ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol
- Pamffledi a thaflenni sy'n targedu'r cyhoedd yn gyffredinol
- Ffurflenni a deunydd eglurhaol wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol
- Cylchlythyrau a llythyrau safonol.

Lle cynhyrchwn ddeunydd i'r cyhoedd yn ddwyieithog, caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi gyda'i gilydd fel arfer a byddant yn gyffelyb. Weithiau, fe gâi'r ddwy fersiwn eu cynnwys yn yr un ddogfen lle byddai hynny'n briodol. Ni fyddid yn eu cynnwys mewn un ddogfen lle golygai hynny fod y ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus neu am resymau ymarferol neu amgylcheddol. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall a byddant yr un mor hygyrch.

Mae cyhoeddiadau UKCES ar gael yn rhad ac am ddim. Pe byddem yn codi tâl am gyhoeddiadau yn y dyfodol, yr un fyddai pris y fersiwn Gymraeg â phris y fersiwn Saesneg gyfatebol.

Bydd pob aelod staff, ymgynghorydd, dylunydd a chyhoeddwr yn cael arweiniad ysgrifenedig (e.e. *Canllawiau Dylunio Dwyieithog*) ar gyfer delio â chyhoeddiadau dwyieithog.

Bydd pob cyhoeddiad dwyieithog a fersiynau Cymraeg ar wahân yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn sicrhau cysondeb yn safon y Gymraeg.

**Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig**

Ar hyn o bryd, nid yw UKCES yn cyhoeddi ei holl ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ein nod o fewn y 3 blynedd nesaf, yw sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau a ddosberthir i'r cyhoedd yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi mewn un ddogfen ddwyieithog. Bydd y fersiynau'n cael eu hargraffu ochr yn ochr lle y bo'n bosibl er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio hawdd a chynnig dewis o iaith.

**Hysbysiadau i'r Wasg**

Natur broffesiynol sydd i fwyafrif hysbysiadau UKCES i'r wasg ac ni chânt eu hanelu at y cyhoedd. Ni fydd y rhain ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag, pan fo gweithgarwch yn y wasg wedi'i anelu'n benodol at y cyhoedd yng Nghymru, caiff datganiadau i'r wasg eu llunio'n ddwyieithog.

Bydd y trefniadau i hwyluso'r ddarpariaeth uchod yn cael eu gwneud gan y Rheolwr Llywodraethu, o dan arweiniad y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol (Llywodraethu a Chyfathrebu).

**Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd**

Ar hyn o bryd, mae UKCES yn destun penderfyniad y llywodraeth i atal marchnata a hysbysebu, a weithredwyd ym mis Mehefin 2010. Golyga hyn nad ydym yn cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd wedi'i anelu at y cyhoedd fel mater o drefn.

Fodd bynnag, os daw'r ataliad i ben a bod UKCES yn dechrau cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd a anelir at y cyhoedd yng Nghymru, bydd yn cynnal y gweithgareddau hyn yng Nghymru yn ddwyieithog, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal. Bydd UKCES yn cydymffurfio â'r ymrwymiadau a roddir yn y Cynllun hwn yng nghyd-destun cyhoeddiadau o'r fath.

Bydd y canlynol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yng Nghymru:

- pob deunydd cyhoeddusrwydd a fwriedir ar gyfer y cyhoedd;
- deunydd a anfonir drwy'r post, gan gynnwys deunydd hyrwyddo ac arolygon;
- hysbysebion yn y wasg/cyfryngau;
- arolygon cyhoeddus;
- ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol;
- stondinau gwybodaeth ac arddangosfeydd, a
- phosteri hysbysebu.

**Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff**

Bydd UKCES yn sicrhau bod hysbysiadau cyhoeddus yng Nghymru yn dangos fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd ac y byddant yn gydradd o safbwynt fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd: boed hynny 'yn y wasg', ar hysbysfyrddau neu fel arall.

Bydd y canlynol yn eithriadau i'r trefniadau uchod:

- hysbysiadau cyhoeddus sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y rhain yn ymddangos yn Gymraeg yn unig; a
- hysbysiadau cyhoeddus sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg ledled y DU neu'r tu hwnt. Bydd y rhain yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

Ar hyn o bryd, nid oes gan UKCES swyddi sydd â gofynion ieithyddol penodol yn rhan ohonynt er mwyn galluogi'r corff i gyflawni ei nodau. Fodd bynnag, bydd UKCES yn mynd ati i fyfyrio'n rheolaidd ar ei ofynion ieithyddol ac, wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff yng Nghymru, bydd yn cydymffurfio â'r trefniadau canlynol:

(a) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn gymhwyster *hanfodol* ar eu cyfer yn ymddangos:
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg; ac
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yn bennaf yng Nghymru, ond gydag esboniad byr yn Saesneg.

(b) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn gymhwyster *dymunol* ar eu cyfer yn cael eu cyhoeddi:
- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf;
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg ar draws y DU yn bennaf; ac
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

(c) Bydd hysbysebion am swyddi nad oes unrhyw ofynion ieithyddol wedi'u nodi ar eu cyfer er mwyn galluogi UKCES i gyflawni ei amcanion yn cael eu cyhoeddi:
- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf;
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg; ac
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yn bennaf y tu allan i Gymru.

## 7. Gweithredu'r Cynllun

**Staffio**

Ar hyn o bryd, nid oes gan UKCES swyddfa na staff yng Nghymru nac yn unman arall â sgiliau dwyieithog. Bydd y tîm Gweinyddu Busnes yn ymgymryd â'r gwaith o weithredu a monitro'r cynllun. Fodd bynnag, ar bob cyfle posibl, bydd UKCES yn cydymffurfio â'r arweiniad uchod i sicrhau y bydd yn darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.

**Dysgu Cymraeg**

Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn unol â graddau amrywiol o hyfedredd ac mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwasanaeth yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn. Cydnabydda UKCES hefyd fod y gallu i ddeall a siarad Cymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn sgil werthfawr iawn sydd yn gallu cynorthwyo ei staff i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Bydd UKCES yn cefnogi gweithrediad y Cynllun drwy annog a chefnogi aelodau staff sydd am ddysgu Cymraeg neu wella'u gallu i siarad Cymraeg.

Bydd UKCES yn trefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i weithrediad y Cynllun. Bydd cyrsiau o'r fath ar gael i'r rhai sy'n dechrau dysgu Cymraeg ac i'r rhai hynny sydd am wella'u gallu i siarad ac ysgrifennu'r iaith. UKCES fydd yn gyfrifol am dalu costau'r cyrsiau hyn.

Ar hyn o bryd, mae swyddfeydd UKCES yn Llundain ac yn Ne Swydd Efrog. Ond, pe bai swyddfa'n cael ei sefydlu yng Nghymru, mae'r sefydliad yn ymrwymo i'r egwyddorion uchod ac (os oes angen/os gofynnir am hynny) i'w gweithredu wrth iddynt gyflwyno darpariaeth ddwyieithog y sefydliad.

**Recriwtio**

Wrth recriwtio staff a fydd yn gweithio yng Nghymru, byddwn yn cael ein harwain gan y wybodaeth a gesglir yn sgil dilyn y gweithdrefnau o dan 'Staffio' uchod. Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau'r cyhoedd Cymraeg neu Saesneg eu hiaith yn ystod unrhyw gam recriwtio.

Bydd UKCES yn ceisio dod o hyd i ddigon o siaradwyr Cymraeg sydd â sgiliau priodol er mwyn gallu gweithredu'r Cynllun hwn. Bydd pob hysbyseb recriwtio ar gyfer pob swydd yn y dyfodol sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, ynghyd â'r swydd-ddisgrifiadau neu'r manylion perthnasol, yn cael eu geirio mewn modd sy'n nodi gofynion ieithyddol y swydd yn eglur.

Ar adegau, lle y ceir anhawster recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol, efallai y bydd angen penodi rhywun di-Gymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn *hanfodol*. Fodd bynnag, hysbysebir a chynigir swyddi o'r fath ar y ddealltwriaeth y bydd angen i'r rhai di-Gymraeg ddysgu'r iaith fel amod o gyflogaeth a chyrraedd lefel foddhaol o rugldер o fewn cyfnod penodedig rhesymol. Y lefel rhugldеr a bennir fydd honno sydd ei hangen i gyflawni cyfrifoldebau'r swydd, a bydd hynny'n cael ei ddatgan yn glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ochr yn ochr â chefnogaeth UKCES iddynt ddysgu'r iaith.

Ym mhob trefniant o'r fath, bydd UKCES yn rhoi'r amser a'r cymorth angenrheidiol i alluogi'r aelod staff i fodloni'r amod gan sicrhau nad yw dan anfantais mewn modd arall o ganlyniad i gadw at yr amod hwn. Caiff y rhaglen ddysgu ei strwythuro a'i monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyflogwr a'r aelod staff yn cadw at eu gair. Bydd hyn yn rhan o sicrhau bod gan UKCES nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu i gyflwyno'r gwasanaethau sydd yn y Cynllun hwn.

O ganlyniad, bydd UKCES yn trin sgiliau ieithyddol yn yr un modd yn union ag unrhyw sgil broffesiynol arall a all fod yn ofynnol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau swydd ac a fydd yn destun adolygiad ymhen cyfnod penodedig. Gan hynny, rhaid parchu a gweithredu'r amod cyflogaeth yr un mor gadarn ag unrhyw amod cyflogaeth arall a bydd UKCES yn adolygu safon cyrhaeddiad ar ddiwedd y cyfnod penodedig ar ôl y penodiad.

**Hyfforddiant Galwedigaethol**

Mae UKCES yn ymrwymo i ddatblygu gallu ei staff i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt ymgynefino â thrin a thrafod eu priod feysydd proffesiynol gyda'r cyhoedd yn Gymraeg.

Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad hwn, bydd UKCES yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg cyn darparu hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun.

O gofio natur gwaith UKCES, bydd yn gweithredu'r ymrwymiadau hyn drwy asesu'r gofynion am ddarparu hyfforddiant galwedigaethol ar sgiliau sgwrsio, sgiliau ffôn a sgiliau prosesu geiriau.

## 8. Trefniadau gweinyddol

**Awdurdod:** Mae UKCES yn cadarnhau bod y Cynllun hwn a'i holl fesurau wedi'u cymeradwyo ar y lefel uchaf ac y bydd ganddynt awdurdod canolog a rhanbarthol llawn y sefydliad wrth iddynt gael eu gweithredu.

**Cyfrifoldeb:** Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Llywodraethu) UKCES fydd yn bennaf gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun.

Yna, y tîm Gweinyddu Busnes fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd ac am integreiddio'r agweddau ar y gwasanaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl o fewn ei brosesau gweinyddol arferol.

**Cyfarwyddyd ac Arweiniad:** Bydd UKCES yn sicrhau bod ei holl staff sy'n delio â Chymru yn derbyn cyfarwyddyd ar y Cynllun a chyngor ar yr hyn a ddisgwylir oddi wrthynt (Gweler adran 4)

Bydd pob cyfieithydd allanol a ddefnyddir gan UKCES yn gymeradwy ac yn gymwys i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. [Mae rhestr gyfredol a chynhwysfawr o gyfieithwyr cymeradwy i'w chael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg: http://www.comisiynyddygymraeg.org/Cymraeg/Cymorth/Pages/cyfieithu.aspx].

## 9. Gwasanaethau a gyflwynir ar ran UKCES gan Drydydd Partïon

Bydd UKCES yn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r Cynllun Iaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau newydd neu wasanaethau sydd eisoes wedi'u contractio allan.

Bydd UKCES hefyd yn sicrhau drwy drefniadau contractio y gall, y bydd a bod yr asiant, contractwr neu is-gontractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun UKCES wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.

Bydd UKCES yn cydweithio â darparwyr i annog gweithrediad eu Cynlluniau Iaith eu hunain.

Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â mesurau perthnasol Cynllun Iaith UKCES drwy lythyr.

Bydd UKCES yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr ac yn dyfeisio prosesau er mwyn sicrhau bod staff yn glynu atynt.

## 10. Partneriaethau

Mae UKCES yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o gyrff: cyflogwyr mawr a bach o ddiwydiant, undebau llafur, y trydydd sector, addysg bellach ac uwch a phobl o bedair cenedl y DU. Mae UKCES yn gweithredu ar lawer o lefelau wrth gydweithio ag eraill:

1. Pan fo UKCES yn arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.
2. Pan fo UKCES yn ymuno â phartneriaeth gyda chorff arall sy'n arwain, bydd mewnbwn UKCES i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd UKCES yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.
3. Pan fo UKCES yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithrwydd. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortiwm, bydd y sefydliad yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith.

4. Pan fo UKCES yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisïau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd UKCES yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

## 11. Monitro'r Cynllun

Mae UKCES yn enwebu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Llywodraethu) i fod yn bennaf gyfrifol am fonitro'r Cynllun ac am ei adolygu'n barhaol fel yr amlinellir yn adran 7.

Bydd UKCES yn strwythuro'r broses fonitro ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithrediad y Cynllun a gaiff ei gyflwyno i'r tîm rheoli. Gwneir hwn bob chwe mis.

Bydd Bwrdd UKCES yn cael adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol a fydd yn ei alluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw UKCES yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hynny?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn delio â:

- gwasanaethau Cymraeg gweinyddol UKCES;
- asesu themâu allweddol wrth weithredu'r Cynllun, gan gynnwys cyfraniad UKCES at ddatblygu darpariaethau dwyieithog/Cymraeg;
- digonolrwydd hyfedredd ieithyddol UKCES i weithredu gofynion y Cynllun Iaith.

Bydd barn siaradwyr Cymraeg hefyd yn cael ei chasglu'n achlysurol am ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad.

Bydd monitro'r Cynllun yn weithgarwch strwythuredig a pharhaol, ac os bydd yr adroddiad yn canfod gwendidau, bydd UKCES yn paratoi cynllun gweithredu a fydd yn unioni'r sefyllfa.

Yna bydd copi o'r adroddiad uchod yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun hwn, bydd UKCES yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd gyntaf. Er mwyn adolygu a diweddaru ei Gynllun Iaith a thrwy hynny dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr ail gyfnod o weithredu, bydd yr adroddiad hwn yn:

- darparu trosolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfiaeth a pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd, o ran Darparu Gwasanaethau a rheoli'r Cynllun;
- amlinellu blaenoriaethau UKCES ar gyfer y tair blynedd ddilynol, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun;
- fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd UKCES yn cynnal arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd er mwyn cael eu barn am gwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog.

Bydd yr adroddiad blynyddol a ddarperir gan UKCES i Gomisiynydd y Gymraeg mewn fformat a fydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiynydd, ac yn disgrifio cynnydd wrth weithredu'r Cynllun yn erbyn yr amserlen a'r safonau cymeradwy. Bydd hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau a dderbyniwyd oddi wrth y cyhoedd.

## 12. Cyhoeddi gwybodaeth

Mae UKCES yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd sy'n cymharu perfformiad â'r safonau a'r targedau a nodir yn y Cynllun.

Bydd UKCES yn gwireddu'r ymrwymiad hwn drwy:

- gyhoeddi adroddiad cyfnodol fel yr amlinellir yn adran 11; a
- rhoi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol;
- rhoi crynodeb o'r wybodaeth hon mewn dogfennau eraill lle y caiff perfformiad ei adolygu; ar bosteri mewn mannau cyhoeddus mewn swyddfeydd; mewn cylchlythyrau; ar .GOV.UK ac ati.

Lle na fydd UKCES yn cyrraedd targedau, rhoddir y rhesymau dros hyn ynghyd ag amcan o sut a phryd y bydd yn cyrraedd targedau diwygiedig.

## 13. Cyhoeddusrwydd (Adran 12(2)(b) y Ddeddf)

Mae UKCES yn ymrwymo i sicrhau cyhoeddusrwydd cychwynnol a pharhaus i'r Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau, ar y naill law, fod y cyhoedd a phawb a ddaw i gysylltiad ag UKCES yn ymwybodol o'i wasanaethau a'i ddarpariaethau Cymraeg ac, ar y llaw arall, bod staff cyflogedig, asiantau a chontractwyr UKCES yn ymwybodol o'r anghenion a'r gofynion i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

Bydd UKCES yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w Gynllun Iaith trwy ddarparu copïau o'r Cynllun ar gais i unrhyw sefydliadau/cyrff perthnasol, staff cyflogedig neu aelodau o'r cyhoedd. Hefyd, bydd UKCES yn llunio tudalen ar ei dudalennau .GOV.UK yn esbonio prif elfennau'r Cynllun ac yn rhoi manylion am natur, lleoliad ac argaeledd gwasanaethau dwyieithog. Bydd deunyddiau o'r fath ar gael hefyd i bob sefydliad/corff perthnasol, gweithiwr a'r cyhoedd.

Dylid cyfeirio pob ymholiad am y Cynllun at y canlynol: Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Llywodraethu) / Assistant Director (Governance), UKCES, Renaissance House, Adwick Park, Wath-upon-Dearne, South Yorkshire S63 5NB.

## 14. Cwynion, Awgrymiadau a Phwyntiau Cyswllt

Bydd UKCES yn mabwysiadu trefn gwyno i ddelio â chwynion ynghylch y Cynllun fel rhan o drefn gwyno gyffredinol UKCES. Cysylltwch â'r tîm Gweinyddu Busnes: UKCES, Renaissance House, Adwick Park, Wath-upon-Dearne, South Yorkshire S63 5NB.

Bydd UKCES yn croesawu ac yn cofnodi unrhyw gwynion neu awgrymiadau ynghylch gwella'r gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Ysgrifennwch at y tîm Gweinyddu Busnes: UKCES, Renaissance House, Adwick Park, Wath-upon-Dearne, South Yorkshire S63 5NB.

## 15. Targedau

Gosodir targedau pendant ar gyfer gweithredu'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun. Bydd y targedau hyn yn nodi'r camau a gymerwyd eisoes, y rhai y gellir eu gweithredu ar unwaith, a'r targedau hynny sy'n dargedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Bydd pob targed o'r fath yn eglur, diamwys a pherthnasol.

## 16. Amserlen (Adran 12(2)(a) y Ddeddf)

Oni nodir yn wahanol, daw'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn weithredol ar ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun. Yna, bydd y broses fonitro'n dilyn y camau a amlinellir yn adran 11.

| Ymrwymiad | Amserlen | Swyddog sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| Darparu canllawiau ysgrifenedig a hyfforddiant i staff ar weithredu'r Cynllun. | O fewn 3 mis o weithredu'r Cynllun | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes |
| Darparu ateb Cymraeg i ohebiaeth Gymraeg. | Dylid anelu at ateb o fewn 20 niwrnod o dderbyn llythyr/e-bost/galwad ffôn | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes |
| Bydd ein tudalennau gwe ar .GOV.UK yn cynnwys tudalennau Cymraeg a Saesneg. Lle y bo'n briodol, bydd fersiynau Cymraeg o rai tudalennau rhyngweithiol ar ein tudalennau gwe ar gael. | O fewn 3 mis o weithredu'r Cynllun | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes / Swyddogaeth Cyfathrebiadau |
| Ein nod, o fewn y 3 blynedd nesaf, yw sicrhau y bydd unrhyw gyhoeddiadau a ddosberthir i'r cyhoedd yng Nghymru, yn ymddangos mewn un ddogfen ddwyieithog. Caiff y fersiynau eu hargraffu ochr yn ochr lle y bo'n bosibl, er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio hawdd a chynnig dewis o iaith. | O fewn 3 blynedd o weithredu'r Cynllun | Swyddogaeth Cyfathrebiadau |
| Bydd UKCES yn adolygu a diwygio'r Cynllun yn flynyddol. | Yn flynyddol o adeg gweithredu'r cynllun | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes |
| Bydd UKCES yn creu cronfa ddata o'r rhai sy'n dymuno derbyn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. | Drwy gydol cyfnod y Cynllun | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes |
| Bydd UKCES yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithrediad y Cynllun i'w gyflwyno i'r Tîm Rheoli. | Yn flynyddol o adeg gweithredu'r cynllun | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes |
| Bydd Bwrdd UKCES yn cael adroddiad cydymffurfio blynyddol. Yna, anfonir yr adroddiad hwn at Gomisiynydd y Gymraeg. | Yn flynyddol o adeg gweithredu'r cynllun | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes |
| Yn nhrydedd flwyddyn y Cynllun, bydd UKCES yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun, a fydd yn cael ei ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg. | 3 blynedd o ddyddiad gweithredu'r Cynllun | Swyddogaeth Gweinyddu Busnes |